

# Adfer Nant y Wedal ym Mharc y Mynydd Bychan - i fyny'r afon



Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales


Mae saith cyfle adfer wedi cael eu nodi ar gyfer Nant y Wedal i fyny'r afon:

1. Ail-ddolennu'r sianel
2. Adfer siâp y sianel
3. Tynnu neu uwchraddio pontydd troed
4. Ffurfioli llwybr glan yr afon gyda byrddau gwybodaeth a meinciau
5. Plannu yn y parth torlannol
6. Symud y coed ceirios o goridor yr afon
7. Creu coetir naturiol

JBA  
consulting

## 6. Symud y coed ceirios o goridor yr afon

Er mwyn darparu lle ar gyfer y sianel sydd wedi'i hail-ddolennu, byddai angen symud y coed ceirios o goridor yr afon a'u gosod mewn mannau eraill o fewn Parc y Mynydd Bychan.




## 1. Ail-ddolennu'r sianel

Gallem droi'r sianel yn siâp troellog, gan adfer ei ddolenni naturiol. Byddai hyn yn cefnogi mwy o fywyd gwylt drwy greu crychdonnau, bariau a phyllau sydd i'w cael mewn nentydd naturiol.

## 7. Creu coetir naturiol

Gallai plannu coetir naturiol wella cynefin ym Mharc y Mynydd Bychan gan helpu adar ac anifeiliaid i ddod o hyd i loches, nythu a chwilota am fwyd. Bydd hefyd yn helpu i storio dŵr.



## 3. Tynnu neu uwchraddio pontydd troed

Byddai symud pileri'r bont i ffwrdd o lannau'r afon yn helpu i ail-naturioi'r glannau a darparu mwy o le ar gyfer y nant. Byddai'r pontydd troed hefyd yn fwy diogel yn strwythurol, a fyddai o fudd i'r gymuned.




## 4. Ffurfioli llwybr glan yr afon gyda byrddau gwybodaeth a meinciau

Byddai hyn yn helpu i ailgysylltu pobl â'r amgylchedd lleol, yn eu hannog i ymwneud â byd natur ac yn cefnogi iechyd meddwl a lles.



## 5. Plannu yn y parth torlannol

Byddai plannu llystyfiant brodorol wrth ymyl y nant yn ychwanegu at werth ecolegol Nant y Wedal trwy gynyddu mathau o gynefinoedd.



## 2. Adfer siâp y sianel


Mae gan afonydd naturiol orlifdiroedd lle gall dŵr lifo yn ystod cyfnodau o lawiad uchel. Byddai gostwng y lan dde yn helpu i greu gorlifdir i'r llif arllwys i mewn iddo.





### Rhan Nant y Wedal i fyny'r afon

#### Allwedd

-  Cwlfertau
-  Nant Y Wedal
-  Ardal Prosiect Nant y Wedal
-  Y rhan i fyny'r afon





**Rhan Nant y Wedal i fyny'r afon**

- Allwedd**
- Nant y Wedal
- Opsiynau Adfer**
- Mainc / byrddau gwybodaeth
  - Gosod y coed ceirios yn ôl o'r afon
  - Llwybr wedi'i ffurfioli
  - Adfer siâp y sianel
  - Adfer ystumiau'r sianel
  - Gwaredu neu uwchraddio pontydd troed
  - Creu coetir naturiol
  - Plannu ar lannau'r afon



Ffynonellau: Esri, DigitalGlobe, GeoEye, i-cubed, USDA FSA, USGS, AEX, Getmapping, Aerogrid, IGN, IGP, swisstopo, and the GIS User Community


# Adfer Nant y Wedal ym Mharc y Mynydd Bychan - i lawr yr afon



Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales

Mae chwe chyfle adfer wedi cael eu nodi ar gyfer Nant y Wedal i lawr yr afon:

1. Rheoli'r coetir
2. Ychwanegu deunydd coediog
3. Symud neu gael gwared ar yr all-lif dŵr wyneb
4. Cael gwared ar y ffos bren ac ailbroffilio'r glannau
5. Cael gwared ar y cwlferd dwbl (pont droed)
6. Gosod sgrin ar y cwlferd ac uwchraddio'r llwybr troed




## 1. Rheoli'r coetir

Argymhellir rheoli'r coetir i leihau'r cysgod dros y nant. Byddai hyn yn caniatáu i lystyfiant dyfu ar hyd glannau'r afon a fyddai'n helpu i gyfuno priddoedd a lleihau faint o waddod mân sy'n dod i mewn i'r nant pan fydd hi'n bwrw glaw.

## 5. Cael gwared ar y cwlferd dwbl (pont droed)

Byddai cael gwared ar y cwlferd dwbl (pont droed) yn helpu i wella symudiad dŵr a gwaddod i lawr yr afon a lleihau erydiad.



## 4. Cael gwared ar y ffos bren ac ailbroffilio'r glannau

Byddai hyn yn adfer lled naturiol i'r sianel a phroffil naturiol i'r lan. Bydd hyn yn darparu mwy o le ar gyfer cynefin ac yn gwneud y nant yn fwy deniadol o ran golwg.

## 3. Symud neu gael gwared ar yr all-lif dŵr wyneb


Byddai hyn yn ailsefydlu glan naturiol a gallai wella ansawdd dŵr trwy hidlo llif llygryddion cyn iddo fynd i mewn i'r nant.

## 2. Ychwanegu deunydd coediog

Byddai ychwanegu deunydd coediog yn helpu i greu nodweddion naturiol yn y nant, fel bariau gwaddod, sy'n gynefinoedd pwysig i fywyd gwylt.





## 6. Gosod sgrin ar y cwlferd ac uwchraddio'r llwybr troed

Mae nant Nant y Wedal yn mynd i mewn i gwlfert yn rhan isaf y nant yn ardal y prosiect. Byddai ychwanegu sgrin at agoriad y cwlferd yn gwella diogelwch y cyhoedd a byddai'n helpu i atal rhwystrau yn y system cwlfertau.



### Rhan Nant y Wedal i lawr yr afon

#### Allwedd



-  Cwlfertau
-  Nant Y Wedal
-  Ardal Prosiect Nant y Wedal
-  Y rhan i lawr yr afon





Rhan Nant y Wedal i lawr yr afon

- Allwedd
- Cwlfertau
  - Nant Y Wedal
- Cyfleoedd adfer ar gyfer Nant y Wedal
- Sgrin cwlfer
  - Gosod yr ollyngfa yn ôl o'r afon neu gael gwared arni
  - Ychwanegu deunydd prenaidd
  - Tynnu'r cafn pren
  - Gwaredu neu uwchraddio pontydd troed
  - Rheoli coetir



Ffynonellau: Esri, DigitalGlobe, GeoEye, i-cubed, USDA FSA, USGS, AEX, Getmapping, Aerogrid, IGN, IGP, swisstopo, and the GIS User Community